**COFNODION Y CYNGOR**

Yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol
ddydd Llun 27 Tachwedd, a dydd Mawrth 28 Tachwedd 2023.

**Dydd Llun 27 Tachwedd 2023**

**Yn Bresennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Yr Athro Edmund Burke, Yr Athro Rhiannon T. Edwards**,** Dr Ama Eyo, Mr Eric Hepburn CBE, Mr Celt John, Syr Paul Lambert, Ms Nyah Lowe, Dr Aled Ll. Jones, yr Athro Oliver Turnbull, Ms Julie Perkins, Mrs Emily Rees, Dr Ian Rees, Mr Rheon Tomos, yr Athro David Viner, yr Athro Tim Wheeler DL, yr Athro Jean White CBE, Mr Paul Wood, Ms Elin Wyn a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd y Brifysgol).

**Ymddiheuriadau**: Mr Atul Devani a'r Athro Enlli Thomas.

**Yn bresennol hefyd:**
Mr Michael Flanagan (Prif Swyddog Trawsnewid), Mrs Tracy Hibbert (Prif Swyddog Pobl), Mr Martyn Riddleston (Prif Swyddog Cyllid) a Mr Mike Wilson (Prif Swyddog Strategaeth a Chynllunio).

*Cynhaliwyd y cyfarfod yn Ystafell Gynadledda Cledwyn 3, Prifysgol Bangor ac ar Zoom.*

## 23.16 CROESO A SYLWADAU AGORIADOL

A. Croesawodd y Cadeirydd yr unigolion canlynol i’w cyfarfod cyntaf o’r Cyngor (fel aelodau):

- Mrs Emily Rees, Aelod Annibynnol
- Mr Rheon Tomos, Aelod Annibynnol
- Dr Ama Eyo, Aelod o’r Staff Academaidd
- Dr Aled Llion Jones, Aelod o'r Senedd

## 23.17 DATGELU BUDDIANNAU

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylid datgelu pob buddiant personol, ariannol neu fanteisiol mewn unrhyw fater a gaiff ei ystyried yn y cyfarfod cyn ystyried y mater hwnnw.

B. **[Materion Cyfyngedig]** Datgelodd y Prif Swyddog Cyllid, fel Cadeirydd Bwrdd MSParc, fuddiant yn y trafodaethau sy’n ymwneud ag MSParc.

## 23.18 i 23.23 MATERION CYFYNGEDIG

**<u>Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023</u>**

**Yn Bresennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Yr Athro Edmund Burke, Yr Athro Rhiannon T. Edwards**,** Dr Ama Eyo, Mr Eric Hepburn CBE, Mr Celt John, Syr Paul Lambert, Ms Nyah Lowe, Yr Athro Aled Ll. Jones, yr Athro Oliver Turnbull, Ms Julie Perkins, Mrs Emily Rees, Dr Ian Rees, Mr Rheon Tomos, yr Athro David Viner, yr Athro Tim Wheeler DL, yr Athro Jean White CBE, Mr Paul Wood, Ms Elin Wyn a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd y Brifysgol).

**Ymddiheuriadau**: Mr Atul Devani a'r Athro Enlli Thomas.

**Yn bresennol hefyd:**
Mr Michael Flanagan (Prif Swyddog Trawsnewid) a Mr Martyn Riddleston (Prif Swyddog Cyllid).

Hefyd, roedd yr Athro Paul Van Gardingen yn bresennol ar-lein ar gyfer eitem 23.36 yr agenda.

*Cynhaliwyd y cyfarfod yn Ystafell Gynadledda Cledwyn 3, Prifysgol Bangor ac ar Zoom.*

**23.24 CROESO**

A. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i ail ddiwrnod cyfarfod y Cyngor.

**23.25 MARWOLAETHAU**

A. Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau diweddar y canlynol:

- **Mr Francis Glynne Jones,** Cymwynaswr i'r Brifysgol
- **Mr Roger Whittaker,** Alumni a Chymrawd Er Anrhydedd 1994
- **Yr Athro Nigel John,** cyn Athro Cyfrifiadureg yn yr Ysgol Gyfrifiadureg a chyfarwyddwr cyntaf Sefydliad Ymchwil Cyfrifiadura Gweledol Cymru (RIVIC) a'r Uned Ddadansoddi a Delweddu Uwch Ddelweddau Meddygol a gyllidwyd gan NISCHR
- **Mr John Perkins**, Alumnus, a chyn Gofrestrydd Cynorthwyol
- **Yr Athro Philip Molyneux,** Athro Emeritws a Chyn Ddeon y Coleg / Athro Bancio a Chyllid yng Ngholeg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithas
- **Mrs Brenda Wyn Jones**, cyn aelod o staff y Coleg Normal

Safodd yr Aelodau mewn distawrwydd er cof amdanynt.

**23.26 DATGELU BUDDIANNAU**

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgelu unrhyw fuddiannau personol, ariannol neu fanteisiol mewn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Ni ddatgelwyd buddiannau o gwbl yn yr eitemau dan sylw.

**23.27 COFNODION**

A. **Cadarnhawyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2023.

B. Darparwyd cofnod gweithredu sy’n nodi cynnydd holl gamau gweithredu’r Cyngor sydd heb eu cwblhau. Nododd y Cyngor yr adroddiadau o gynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

**i) Diweddariad Iechyd a Diogelwch (cofnod 23-01)**

Rhoddodd y Prif Swyddog Trawsnewid ddiweddariad ynghylch y materion iechyd a diogelwch. Nodwyd bod adroddiad sy’n cynnwys crynodeb o ddamweiniau a digwyddiadau Blwyddyn Academaidd 2022/2023, yn ogystal â diweddariadau ynghylch y camau gweithredu yn sgil y sesiwn briffio iechyd a diogelwch a gynhaliwyd ar 29 Medi 2023.

Ystyriodd y Cyngor y cais i’r Pwyllgor Archwilio a Risg, ar ran y Cyngor, dderbyn adroddiadau ynglŷn â materion sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch gan y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau. Bydd y Pwyllgor, drwy ei gofnodion, yn rhoi sicrwydd i’r Cyngor, ac yn uwchgyfeirio materion i’r Cyngor lle bo’n briodol. Yn ogystal, gofynnir i'r Cyngor ystyried enwebu aelod annibynnol o'r Cyngor i ymuno â'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau.

Nododd Mr Hepburn fod iechyd a diogelwch yn dal yn risg uchel ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a gofynnodd a oedd hynny’n bod o ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud, fel nodir yn adroddiad y Prif Swyddog Trawsnewid. Fodd bynnag, adroddwyd bod y risg yn cwmpasu nifer o feysydd gwahanol, gan gynnwys pobl, adeiladau, asedau ac offer. Caiff dangosfwrdd ei greu i gwmpasu pob maes o hyn allan er mwyn briffio'r Cyngor yn briodol.

Ar ôl ystyried y mater, **cytunodd** y Cyngor y bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, ar ran y Cyngor, yn derbyn adroddiadau ynglŷn â materion sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch gan y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau. **Cytunwyd** hefyd y bydd yr Athro David Viner yn ymuno â'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau, fel aelod a enwebir gan y Cyngor.

**ii) Ysgol Feddygol Gogledd Cymru (cofnod 23-07)**

Rhoddodd y Dirprwy Is-Ganghellor yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Cyngor ynghylch recriwtio myfyrwyr fis Medi 2024 i Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. Adroddwyd bod ffigurau’r cwrs israddedig yn gadarnhaol.

Croesawodd yr aelodau'r sefyllfa gadarnhaol, yn enwedig gan mai dim ond ym mis Gorffennaf y derbyniodd y Brifysgol y golau gwyrdd i ddechrau recriwtio. Wrth ateb cwestiwn gan Dr Rees a Ms Wyn, dywedodd y Dirprwy Is-Ganghellor nad oedd

ganddo'r data ynghylch faint o ymgeiswyr oedd yn lleol ac yn siarad Cymraeg. **Cytunwyd** y câi’r aelodau diweddariad, a fyddai'n cynnwys cais gan Mr John ynglŷn â faint o fodiwlau'r rhaglen feddygol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodwyd bod y Brifysgol yn ystyried llwybrau bwydo eraill i'r rhaglen feddygol, gan gynnwys seicoleg, gwyddorau chwaraeon, a rhaglen y Cymdeithion Meddygol.

Gofynnodd yr Athro White am ragor o wybodaeth am y garfan o fyfyrwyr nyrsio rhyngwladol a gaiff eu derbyn ddechrau 2024. Nododd yr Athro Turnbull y bydd y grŵp yn ymuno â’r Brifysgol yn y Gwanwyn ac mae’n gyfle gwych i’r Ysgol Gwyddorau Iechyd, gan fod y ffi y bydd y myfyrwyr yn ei thalu’n cynnwys costau llety, y bydd y Brifysgol yn eu defnyddio i gynorthwyo â materion presennol sy’n ymwneud â chapasiti’r Neuaddau. Dywedwyd bod staff yr Ysgol yn hyderus y gallant gyflwyno'r rhaglen hon ochr yn ochr â’r rhaglenni eraill cyfredol.

C. Nodwyd y diweddariad diweddaraf o Gynllun Gwaith y Cyngor.

**23.28 DIWEDDARIAD YR IS-GANGHELLOR**

A. Rhoddodd yr Is-Ganghellor ddiweddariadau i’r Cyngor am nifer o feysydd allweddol:

**Gwobr Pen-blwydd y Frenhines**

Trwy waith yr Athro Davey Jones a'i dîm, enillodd y Brifysgol, Wobr Pen-blwydd y Frenhines am y gwaith a wnaethai i ddatblygu system newydd ar gyfer gwyliadwriaeth iechyd y cyhoedd trwy ddadansoddi pathogenau niweidiol mewn dŵr gwastraff. Nodwyd y cafodd y system ei defnyddio’n genedlaethol yn ystod pandemig COVID-19 a bellach cafodd ei haddasu i fesur amrywiol ddangosyddion iechyd cyhoeddus. Bydd y Brifysgol yn derbyn y wobr yn ffurfiol fis Chwefror ac yna caiff ddefnyddio'r logo am bedair blynedd.

Yn ogystal, dywedodd yr Is-Ganghellor fod yr Athro Davey Jones a’i dîm wedi’u henwebu am Wobr Effaith Gyffredinol yng Ngwobrau Effaith NERC 2023.

Llongyfarchodd Cadeirydd y Cyngor y Brifysgol, ac yn arbennig yr Athro Davey Jones a'i dîm am y llwyddiannau hynny.

**Gwrthdaro Israel / Palesteina**

Wrth ateb cwestiwn gan yr Athro White, adroddodd yr Is-Ganghellor na fu dim protestiadau ar y campws ynghylch y gwrthdaro presennol yn Israel/Palesteina. Yn ogystal, nid oes gan y Brifysgol staff na myfyrwyr yn y gwledydd hynny, ac rydym yn dal i gynnig cefnogaeth trwy lesiant i unrhyw staff neu fyfyrwyr yr mae’r gwrthdaro’n effeithio arnynt. Nodwyd hefyd i Undeb y Myfyrwyr ryddhau hysbysiad yn cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr.

**Ymweliadau gan Weinidogion**

Hysbyswyd y Cyngor i Weinidog Gogledd Cymru, Lesley Griffiths AS, ymweld â'r Brifysgol yn ddiweddar, i ddysgu mwy am gynnydd parhaus Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

Yn ogystal, ymwelodd Gweinidog Swyddfa Cymru, Dr James Davies, â llong ymchwil y Brifysgol, Prince Madog.

**Bwrdd M-SParc**

Yn sgil proses recriwtio gystadleuol, adroddodd yr Is-Ganghellor y cafodd y Prif Swyddog Cyllid ei benodi'n Gadeirydd ar Fwrdd M-SParc. Mae'r Brifysgol yn edrych ymlaen at feithrin cysylltiadau cryfach gyda'r Parc Gwyddoniaeth yn y dyfodol.

**Clefydau Trosglwyddadwy**

Wrth ateb cwestiwn gan yr Athro White, cadarnhaodd yr Is-Ganghellor i'r Brifysgol ddiweddaru ei Chynlluniau Wrth Gefn ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy'n ddiweddar. Cawsant eu diwygio oherwydd y gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19. Caiff y Cynllun ei fonitro gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau.

**B. Amcanion yr Is-Ganghellor**

Nododd y Cadeirydd iddi drafod yr amcanion gyda'r Is-Ganghellor ers wythnosau, a'u bod bellach yn cael eu dwyn gerbron y Cyngor i'w trafod ac i gytuno yn eu cylch. Nodwyd mai bwriad yr amcanion cyffredinol yw darparu fframwaith o ddisgwyliadau, gydag amcanion penodol ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol oddi tano. Nododd yr Is-Ganghellor, er bod y ddogfen yn dwyn y teitl Amcanion yr Is-Ganghellor, mai amcanion y Bwrdd Gweithredol ydynt mewn gwirionedd. Mae'r rhestr yn nodi amcanion allweddol i aelodau'r Bwrdd Gweithredol, yn hytrach na nodi materion sy'n cael eu gweld fel busnes beunyddiol, ac nid ydynt yn cwmpasu amcanion y Bwrdd Gweithredol yn eu cyfanrwydd, a bod gan bob aelod set o amcanion fel y cytunwyd yn ystod y broses Adolygiadau Datblygu Perfformiad.

**[Materion Cyfyngedig]**

Croesawodd y Cadeirydd sylwadau'r aelodau a **chytunwyd** ynghylch yr Amcanion.

**C. Strategaeth 2030**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau i'r Cyngor gymeradwyo fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth 2030 o ran ymgynghori yn ei chylch â'r staff a'r myfyrwyr yn ei gyfarfod fis Gorffennaf 2023. Nodwyd y cafodd y strategaeth ddiwygiedig ei rhannu ym Mwletin y Staff, ond na chafwyd dim adborth. Nodasai Undeb y Myfyrwyr y byddent yn rhoi adborth. Caiff yr adborth hwnnw ei gynnwys yn y drafft diwygiedig a gyflwynwyd i'r Cyngor.

Dywedodd Ms Lowe wrth y Cyngor fod y rhan fwyaf o'r adborth yr oedd Undeb y Myfyrwyr yn dymuno ei gynnwys yn ymwneud â chynnwys y myfyrwyr fel partneriaid, a'r cais am fwy o bwyslais ar iechyd meddwl a llesiant y myfyrwyr, yn ogystal â’r staff. Gofynnodd Undeb y Myfyrwyr am welliant trwy ddrafftio pellach, sef cynnwys amgylchedd dysgu yn yr adran ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Gofynnodd yr Athro White hefyd, lle mae'r Strategaeth yn sôn am gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynwysoldeb, fod y drafft presennol yn nodi dull o beidio â goddef gwahaniaethu, aflonyddu na bwlio o gwbl. Byddai hefyd yn werth cynnwys cymryd agwedd wrth-hiliol ragweithiol.

Yn amodol ar y diwygiadau hynny **cymeradwyodd** y Cyngor  Strategaeth ddrafft ddiwygiedig 2030.

**D. Adroddiad y Bwrdd Gweithredol**

Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad y Bwrdd Gweithredol ac fe’i **nodwyd.**

*Gadawodd Mr Michael Flanagan y cyfarfod.*

**E. Prif Swyddog Gweithredu**

**[Materion Cyfyngedig]**

F. Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i'r Is-Ganghellor ac i aelodau'r Bwrdd Gweithredol am y diweddariadau cynhwysfawr, a **nododd** yr aelodau ddiweddariad y Bwrdd Gweithredol ynghylch rôl y Prif Swyddog Gweithredu.

*Ailymunodd Mr M. Flanagan â’r cyfarfod.*

G. Llongyfarchodd Cadeirydd y Cyngor Mr Flanagan ar ei benodiad, a chadarnhaodd Mr Flanagan ei fod yn edrych ymlaen at fwrw ymlaen â'r rôl fis Ionawr.

## 23.29 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

A. **Nodwyd** yr Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2023 (sydd ynghlwm yn Atodiad III copi swyddogol y cofnodion) ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg 2022/23.

B. Cyflwynwyd adroddiad o'r Risgiau Lefel Uchel i'r Cyngor, a nododd Syr Paul Lambert y bu’r diweddariadau risg a gyflwynwyd y diwrnod blaenorol yn hynod ddefnyddiol.

## 23.30 PWYLLGOR POBL A DIWYLLIANT

A. **Nodwyd** Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2023 (ynghlwm yn Atodiad IV copi swyddogol y cofnodion).

B. Ar argymhelliad y Pwyllgor, **cytunodd** y Cyngor i argymell i'r Cyngor y dylai'r aelodau o'r staff sydd ar gontractau cyfnod penodol sydd ar fin dod i ben rhwng 1 Tachwedd 2023 a 31 Mawrth 2024 gael eu diswyddo oni ellid nodi unrhyw gyfleoedd cyflogaeth eraill addas.

## 23.31 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU

**Nodwyd** yr adroddiad ynglŷn â chyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2023 (sydd ynghlwm fel Atodiad V wrth gopi swyddogol y Cofnodion).

## 23.32 FFORWM YMGYSYLLTU AR Y CYD

**Nodwyd** yr adroddiad ynglŷn â chyfarfod y Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2023 (ynghlwm fel Atodiad VI wrth gopi swyddogol y cofnodion).

## 23.33 ADRODDIAD STRATEGOL UNDEB Y MYFYRWYR

A. Darparodd Ms Lowe a Mr John adroddiad ynghylch y gweithgareddau a fu ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Tynnwyd sylw at y canlynol yn benodol:

- Cynhaliwyd y Ddawns RyngGol yn Aberystwyth yn ddiweddar.
- Cyrhaeddodd ymgyrch 'Tashwedd' ei nod o £500, a bydd Cyngerdd Nadolig Aelwyd JMJ yn codi arian i War Child.
- Roedd project gwirfoddoli'r myfyrwyr o dan arweiniad aelod o'r Undeb Athletau yn darparu prydau poeth am ddim i gymuned Bangor yn Neuadd y Dref. Cafwyd cyllid a chefnogaeth gan Undeb y Myfyrwyr a Chyngor Dinas Bangor.
- Cynhaliodd Undeb y Myfyrwyr ddiwrnod costau byw'n ddiweddar, a oedd yn adeiladu ar waith y llynedd ar gostau byw, pan lansiwyd llyfrgell cyfnewid dillad, a chynhaliwyd siop cyfnewid dillad, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch cynnyrch mislif am ddim.
- Parhaodd Undeb y Myfyrwyr i godi ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu'r myfyrwyr o ran cofrestru, a materion gweinyddol myfyrwyr. Roedd y Cofrestrydd Academaidd yn gweithio gyda'r Undeb i edrych ar yr heriau y mae'r myfyrwyr yn eu profi. Nododd yr Is-Ganghellor hefyd fod gwaith ar y system dderbyn yn flaenoriaeth i'r Brifysgol, ac nad oedd yr Undeb ar ei ben ei hun yn codi'r heriau hynny, a gododd hefyd yn ystod ei ymweliadau â'r Ysgolion a'r Gwasanaethau Proffesiynol. Dywedodd y Prif Swyddog Marchnata wrth y Cyngor y byddai'n bresennol yn Fforwm yr Ôl-raddedigion fis Rhagfyr i ddeall yn well yr heriau a wynebir.
- Dangoswyd gwefan o Brifysgol Newcastle i aelodau'r Cyngor a oedd yn dod â holl faterion llesiant y myfyrwyr ynghyd. Nododd Ms Lowe fod hynny hefyd yn cael ei drafod gyda'r Cofrestrydd Academaidd.

Roedd Dr A. Ll. Jones yn falch o waith hynod amrywiol Undeb y Myfyrwyr. Croesawai ailgodi *Y Llef*, a Chymdeithas John Gwilym Jones.

Gofynnodd yr Athro Viner am daith o amgylch Undeb y Myfyrwyr, a **chadarnhaodd** Ysgrifennydd y Brifysgol y byddai'n bwrw ymlaen â hynny. Yn ogystal, gofynnodd Cadeirydd y Cyngor am ddiweddariad manylach ynglŷn â gwirfoddoli ymhlith myfyrwyr mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Ms Lowe a Mr John am ddiweddariadau ac adroddiadau llawn gwybodaeth, a chroesawodd yr adborth ar y berthynas waith gadarnhaol barhaol gyda'r Brifysgol ar nifer o faterion.

**23.34 ANSAWDD A SAFONAU ADDYSGU A DYSGU'R BRIFYSGOL**

A. Dywedodd yr Athro Callow wrth y Cyngor fod Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru (2020) a gyhoeddir gan HEFCW, yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i benderfynu a yw'r Brifysgol yn cyflawni'r safonau sydd yn y fframwaith. Ystyriwyd Datganiad Canlyniadau Gradd 2022/23, Adroddiad Sicrhau Ansawdd 2022/23 a Siarter y Myfyrwyr 2023/24, a oedd yn darparu gwybodaeth allweddol ynglŷn â sicrwydd i'r Cyngor fel rhan o broses sicrhau ansawdd a llywodraethu'r Brifysgol. Yn ogystal, o ystyried y ffocws cynyddol ar Wella Ansawdd yn y sector Addysg Uwch, ac fel rhan o fethodoleg Adolygu Gwella Ansawdd yng Nghymru, caiff Adroddiad Gwella Ansawdd cyntaf y Brifysgol ei gynnwys hefyd.

B. Cafodd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiad Canlyniadau Gradd 2022/23. Nodwyd bod y datganiad yn dangos i gyfran y graddau 1af a 2:1 gyda'i gilydd gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd at 2020/21, ac y bu gostyngiad sylweddol (-7%) yn 2021/22, a gostyngiad pellach (-5%) yn 2022/23. Ar hyn o bryd nid oes gan y Brifysgol ddata meincnodi i bennu a yw gostyngiad 2022/23 yn unol â'r sector ai peidio. Fodd bynnag, adroddwyd bod gostyngiad 2021/22 yn cyd-daro â'r sector, a bod The Times and Sunday Times Good University Guide yn gosod Bangor yn safle 69 (allan o 132) am y dangosydd 1af/2:1, ac o fewn yr ystod rhyngchwartel (C2). Hefyd, cynyddodd cyfran gyfunol y graddau dosbarth 1af a 2:1 flwyddyn ar ôl blwyddyn dros gyfnod pum mlynedd yr adroddiad, a'r sbardun yw'r cynnydd yng nghyfran y graddau dosbarth 1af a ddyfarnwyd (+19% ers 2016/17).

Nodwyd, pan fydd data HESA ar gael, y bydd y Brifysgol yn meincnodi gostyngiad y graddau da. Yn ogystal, a beth bynnag fo'r broses feincnodi, o ystyried y gwahaniaeth o 45% yng nghyfran y graddau da ledled y sefydliad, bydd y Brifysgol yn adolygu Cynlluniau Gweithredu Dosbarthiad Graddau'r Ysgolion i benderfynu a ydynt yn addas at y diben a bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni. Bydd y Brifysgol yn parhau â'r gwaith ar leihau'r bylchau yn y dyfarniadau gan flaenoriaethu myfyrwyr hŷn, myfyrwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol a myfyrwyr o ardaloedd o amddifadedd uchel.

Ar ôl ystyried, **nododd** y Cyngor Ddatganiad Canlyniadau Gradd 22/23.

C. Cyflwynodd yr Athro Callow Adroddiad Blynyddol Sicrhau Ansawdd 2022/23 a nododd y Cyngor yr wybodaeth a gafwyd dros y flwyddyn ddiwethaf i roi sicrwydd pellach. Ymhlith y rheini oedd adroddiadau'r Senedd, Dangosyddion Perfformiad Allweddol ynglŷn ag addysg, profiad y myfyrwyr ac ymchwil, canlyniadau llawn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr a Chynllun Gweithredu dilynol 2022, canlyniadau PTES a PRES

yn 2022, a diweddariadau rheolaidd gan Undeb y Myfyrwyr gan gynnwys derbyn y Cytundeb Perthynas a Siarter y Myfyrwyr.

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod y Brifysgol yn diogelu safonau cymwysterau'r Brifysgol yn effeithiol, nodwyd bod yr adroddiad yn cynnig diweddariad ynghylch y strwythurau llywodraethu diwygiedig o ran addysgu a dysgu a’r prosesau Sicrhau Ansawdd, gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr ac iddo gylch gorchwyl ehangach sy'n galluogi'r Brifysgol i weithio’n fwy integredig i gynnig amgylchedd dysgu rhagorol a phrofiad cadarnhaol i'r myfyrwyr. Caiff cyfrifoldebau Byrddau Astudiaethau’r Ysgolion a grwpiau cyflawni'r Cwricwlwm eu disgrifio hefyd. Caiff polisïau asesu a marcio’r Brifysgol eu disgrifio gan gynnwys rôl yr Arholwyr Allanol, a nodir na chododd yr un o dros 150 o Arholwyr Allanol bryderon difrifol yn ystod 2022/23.

Er mwyn sicrhau’r Cyngor bod y Brifysgol yn cynnal ac yn adrodd ynghylch ei deialog gyda’r myfyrwyr ac yn ymateb yn effeithiol i arolygon y myfyrwyr, mae’r adroddiad hefyd yn cynnig tystiolaeth o ymateb y Brifysgol i Adroddiad Profiad Myfyrwyr Undeb Bangor, a rannwyd gyda’r Cyngor yn ei gyfarfod fis Tachwedd 2023. Bu'r Cyngor yn trafod materion allweddol sy’n ymwneud ag arolygon y myfyrwyr ac fe gytunwyd yn eu cylch gyda'r myfyrwyr, ac mae’r cynlluniau gweithredu y gofynnodd HEFCW amdanynt wedi'u nodi'n fanwl.

Gofynnodd Syr Paul Lambert beth mae'r Brifysgol yn ei wneud i gofnodi profiad y myfyrwyr yn ystod y flwyddyn, i gael rhybudd cynnar o faterion sy’n ymwneud â phrofiad y myfyrwyr. Dywedodd yr Athro Callow i’r Brifysgol gynnal arolwg pwls yn ddiweddar, a gafodd dros 500 o ymatebion gan fyfyrwyr y flwyddyn $1^{af}$ a’r $2^{il}$. Mae'r data'n cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd ac wedyn bydd y themâu’n cael eu datblygu gyda'r ysgolion priodol.

Rhoddodd yr Athro Turnbull, fel Pennaeth Gweithredol yr Ysgol, ddiweddariad i'r Cyngor ynglŷn â’r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Ysgol y Gwyddorau Iechyd. Nodwyd y cynhaliwyd cyfarfodydd gyda’r staff a’r myfyrwyr. Mae derbynfa Fron Heulog wedi ailagor yn ystod y diwrnod gwaith, ac ailgyflwynwyd Rheolwr Ysgol. Nid oedd y pryderon a gododd y myfyrwyr gyda'r Athro Turnbull yn ymwneud ag addysgu a dysgu, ond yn hytrach â chyfathrebu a gweinyddu cyrsiau. Y gobaith yw y bydd y camau cynnar hynny’n sicrhau y bydd sgoriau NSS yr Ysgol yn gwella yn arolwg 2024.

Nododd Mr Hepburn fod y Cyngor yn llwyr gefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd yn yr Ysgol a diolchodd i'r Athro Turnbull am ei waith.

Ar ôl trafod, nododd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Sicrhau Ansawdd, 2021/22.

D. Cyflwynodd yr Athro Callow Adroddiad Gwella Ansawdd cyntaf y Brifysgol. Mae'r adroddiad yn ceisio cynnig tystiolaeth bod Prifysgol Bangor wedi gwella profiad dysgu’r myfyrwyr yn unol â diffiniadau’r sector o 'wella'. Hynny yw, defnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau bwriadol gyda'r bwriad o wella profiad dysgu’r myfyrwyr. Nodwyd mai cam cyntaf yw’r Adolygiad Gwella Ansawdd tuag at

gynnig ffordd fanwl o gyfleu cynnydd yn unol â blaenoriaethau allweddol is-strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol o safbwynt gwella a chynnig diweddariad blynyddol i'r Brifysgol a'r Cyngor. Yn ogystal, ac o ystyried perfformiad y Brifysgol yn NSS 2023, cyflwynir ymateb NSS y Brifysgol i HEFCW, i roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â chynlluniau cyflawni a gwella'r NSS ar gyfer 2023/24.

E. Yn ogystal, **nododd** y Cyngor Siarter y Myfyrwyr 2023/24 a'r Cytundeb Perthynas gydag Undeb y Myfyrwyr. Nododd Ms Lowe y digwyddodd y gwaith ar Siarter y Myfyrwyr yn sgil adolygiad o'r arferion gorau, ac i wneud y ddogfen yn fwy dealladwy i'r myfyrwyr.

F. Yng ngoleuni'r wybodaeth a roddwyd yn A. hyd E. uchod, **cytunodd** y Cyngor i'r chwe datganiad blynyddol ar sicrwydd i'w cyflwyno i HEFCW.

Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i'r Athro Callow a'r Athro Turnbull am y diweddariadau.

## 23.35 MATERION CYFYNGEDIG

## 23.36 MATERION CYFYNGEDIG

*Gadawodd Dr A.Ll. Jones y cyfarfod.*

## 23.37 SEREMONÏAU GRADDIO'R GAEAF

Rhoddodd Ysgrifennydd y Brifysgol ddiweddariad i'r Cyngor ynglŷn â threfniadau seremonïau Graddio'r Gaeaf ganol mis Rhagfyr. Nodwyd y bydd y seremonïau'n cynnwys pump o raddedigion er anrhydedd.

## 23.38 SYLWADAU CYN CLOI

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gymerodd ran yng nghyfarfod deuddydd y Cyngor. Bu'n addysgiadol, ac fe aed â nifer o faterion allweddol rhagddynt.